Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad Cymru 2014

## Adroddiad CRIDE ar arolwg 2014 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

### Cyflwyniad

Yn 2014 cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei bedwerydd arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar ym mlwyddyn ariannol 2013/14[1]. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriadwyd ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Yn dilyn y drydydd arolwg, penderfynodd CRIDE anfon arolwg byrrach yn cynnwys nifer llai o gwestiynau craidd bob yn ail flwyddyn ac arolwg llawn rhyngddynt. Penderfynodd CRIDE hefyd gynnwys yn yr arolygon byrrach nifer fach o gwestiynau thematig ar achosion a materion cyfoes. Mae arolwg 2014 yn arolwg byrrach ac yn cynnwys cwestiynau thematig ar broffil oedran Athrawon Plant Byddar yn sgil pryderon am fylchau mewn cynhwysedd yn y dyfodol. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau thematig ar ddarpariaeth iaith arwyddion.

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Mae o leiaf 2,880 o blant byddar yng Nghymru; cynnydd cofnodedig o 1% dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Cyflogir tua 70 o athrawon fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru. O'r rheini, mae 67 yn Athrawon Plant Byddar cymwysedig. Gwelwyd cynnydd bach iawn yn y nifer o Athrawon Plant Byddar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Disgwylir i 48% o Athrawon Plant Byddar ymddeol o fewn y 10 i 15 mlynedd nesaf.
- Ni all traean o wasanaethau ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.6 (cyfwerth amser llawn) Athro Plant Byddar yn unig trwy Gymru gyfan sydd â chymhwyster Lefel 3 mewn Iaith arwyddion Prydain.

Derbyniwyd atebion oddi wrth 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 o ardaloedd awdurdodau lleol. Golyga hyn fod yr arolwg CRIDE hwn wedi cyflawni cyfradd ymateb o 100% am y drydedd flwyddyn yn olynol.

[1] Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) yn http://www.batod.org.uk/index.php?id=/resources/survey neu ar wefan NDCS yn www.ndcs.org.uk/cride.

## Defnyddio'r canlyniadau

Gellir defnyddio'r adroddiad CRIDE yn y ffyrdd canlynol:

- Gall penaethiaid ysgolion a gwasanaethau ar gyfer plant byddar wneud defnydd o'r canfyddiadau demograffig cymaradwy wrth iddynt baratoi ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol ar y ddarpariaeth leol. Gall cael mynediad at ddata blynyddol helpu i sicrhau fod plant byddar yn cael eu hadnabod a bod darpariaeth effeithiol yn cael ei chynnig ar eu cyfer.
- I reolwyr, gall y set ddata lywio, yn ddibynadwy, gynllunio strategol yn ymwneud â staffio a materion hyfforddi staff - gellir adnabod tueddiadau sy'n llywio'r trafodaethau hyn.
- Caiff ymchwilwyr ym maes addysg fyddar sydd yn cyfrannu at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth fynediad at wybodaeth berthnasol a defnyddiol am y boblogaeth sy'n cael ei hastudio.
- Bydd yr adroddiad yn addysgiadol ac o ddiddordeb i rieni plant byddar ac i blant byddar, gan ei fod yn creu darlun o'r ddarpariaeth genedlaethol ar gyfer plant byddar.

Hoffai CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am gymryd amser i ymateb, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.

## Dehongli'r canlyniadau

Er y credwn fod ansawdd y data wedi gwella, mae nifer o wasanaethau'n dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae o hyd anghysondebau yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.**

Trwy'r adroddiad rydym wedi amlygu unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon CRIDE blaenorol. **Unwaith eto, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau oherwydd y newidiadau bychain yn y ffordd y geiriwyd rhai cwestiynau o flwyddyn i flwyddyn a hefyd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb rhwng yr arolygon.**

At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 oed â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol, yn ôl disgrifyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD. Defnyddiwn y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel o fyddardod, o fân fyddardod i fyddardod llwyr.

## Cynnwys

Mae gan yr adroddiad hwn saith rhan ac un atodiad, fel y'i hamlinellir isod:

RHAN 1: Cyfanswm y plant byddar yng Nghymru ('sy'n perthyn' ac 'a gefnogir') ........................................3
RHAN 2: Cyfathrebu ac iaith........................................5
RHAN 3: Athrawon Plant Byddar ........................................6
RHAN 4: Staff arbenigol eraill........................................10
RHAN 5: Effaith adroddiadau CRIDE........................................13
RHAN 6: Sylwadau i gloi........................................14
RHAN 7: Cefndir a methodoleg ........................................15
Atodiad A: Gwybodaeth am wasanaethau unigol sy'n darparu cymorth arbennig ar gyfer plant byddar......16

## RHAN 1: Cyfanswm y plant byddar yng Nghymru ('sy'n perthyn' ac 'a gefnogir')

### Faint o blant byddar y gwyddys eu bod yn 'perthyn'?

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion plant byddar sy'n "perthyn" i'r gwasanaeth. Diffiniwyd "perthyn" fel: pob plentyn byddar sy’n byw o fewn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys plant byddar sy’n byw o fewn ffin yr awdurdod lleol ond sydd yn mynychu ysgol sydd y tu allan i’r awdurdod lleol. Nid yw’n cynnwys plant byddar sy’n byw tu allan i’r awdurdod lleol ond sydd yn mynychu ysgol o fewn yr awdurdod.

Wrth seilio'r ffigurau ar ymatebion o’r 15 gwasanaeth yn cynrychioli’r 22 awdurdod lleol, y cyfanswm o blant byddar yng Nghymru yw **2,880.** Mae'r ffigur hwn wedi gostwng o 2,904 yn 2012/13, sydd yn dod i leihad o 1% dros y flwyddyn ddiwethaf, ond i gynnydd o 4% yn ystod y pedair blynedd diwethaf (pan adroddwyd bod 2,775 yn perthyn yn 2010/11). Mae'n anodd fod yn sicr i ba raddau y mae'r newid a adroddwyd dros y pedair blynedd diwethaf oherwydd newidiadau mewn demograffeg, cynnydd yn nifer y plant sy’n cael diagnosis o fyddardod neu welliannau o ran cofnodi. Y nifer lleiaf o blant sy’n perthyn oedd 55 a'r uchaf oedd 767. Y cyfartaledd oedd 192.

Gofynnwyd i wasanaethau roi ffigur cyffredinol o’r nifer o blant byddar y gwyddys eu bod yn ‘perthyn’ i’r gwasanaeth. Yn ddiweddarach, darparodd 33% o wasanaethau ffigur am y nifer o blant a gefnogir a oedd yr un ffigur a’r nifer o blant sy’n perthyn. Mae gan CRIDE bryderon o hyd bod rhai gwasanaethau yn darparu ffigurau am y nifer o blant sy’n perthyn yr ydynt yn cefnogi yn weithredol yn unig – h.y. ni chaiff plant sydd ddim yn derbyn cefnogaeth eu cofnodi gan nad ydynt yn hysbys i’r gwasanaeth.

### Plant byddar yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau

Gofynasom am blant byddar sy’n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth. Rhoddwyd enghreifftiau o gymorth yn cynnwys dysgu uniongyrchol, ymweliadau â’r teulu neu’r ysgol, cysylltu â’r teulu, ysgol ac athrawon, darparu gwiriadau teclynnau clyw, ayb. Yn seiliedig ar ymatebion gan y 15 gwasanaeth, awgryma ein harolwg fod o leiaf 2,345 o blant byddar yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol, sydd yn dod i ostyngiad o 9% ar y llynedd pan adroddwyd bod 2,530 o blant byddar yn derbyn cefnogaeth a gostyngiad o 11% dros bedair blynedd (pan adroddwyd bod 2,638 yn cael eu cefnogi yn 2010/11). Y nifer lleiaf o blant a gefnogir gan wasanaeth oedd 40 a'r uchaf oedd 767. Y cyfartaledd oedd 156.

Gan dybio bod y ffigurau yn fras gymaradwy, os oes 2,880 o blant byddar sy'n byw yng Nghymru, mae yna o leiaf 535 plentyn byddar sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth. Hynny yw, nad yw 19% o blant byddar yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol sydd yn gynnydd o 6% ar y llynedd. Nid yw o anghenraid yn golygu nad yw’r plant byddar hyn yn derbyn unrhyw gymorth; mae'n bosib bod rhai ohonynt yn derbyn cymorth rhywle arall, er enghraifft, ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar, tu allan i Gymru neu ddarpariaethau adnoddau nad ydynt wedi’u rheoli gan y gwasanaeth.

### Sut mae ffigurau CRIDE 2014 yn cymharu â ffigurau gan ffynonellau eraill?

Mae defnyddio gofal wrth gymharu ffigurau CRIDE â ffynonellau eraill yn angenrheidiol o achos y gwahaniaethau yn y modd y casglwyd data a'r gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir. Awgryma CRIDE y defnyddir y ffigurau hyn fel sylfaen ar gyfer dadl a dadansoddiad pellach, yn hytrach nag er mwyn ffurfio canlyniadau pendant.

*Cyfrifiad Ysgolion*

Adrodda arolwg CRIDE 2014 fod 2,880 o blant byddar yng Nghrymu. Er hynny, awgryma Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014 fod 2,149 o ddisgyblion sydd â 'nam ar y clyw' fel prif AAA a'u bod yn derbyn cymorth trwy'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â datganiad AAA[2]. Felly awgryma'r Cyfrifiad Ysgol gynnydd o 3.5% ers Cyfrifiad Ysgol 2013 pan oedd ffigur cyfatebol yn 2,072[3].

Mae Llywodraeth Cymru hefyd bellach yn darparu data ar nifer y plant mewn ysgolion a gynhelir lle y cofnodir nam ar y clyw yn AAA eilaidd [4]. Yn 2014, bu'r ffigur hwn yn 620, cynydd o 1% ar 2013. O ganlyniad, cofnododd y Cyfrifiad Ysgolion gyfanswm o 2,764 o blant â nam ar y clyw yn 2014. Mae hyn yn cynnwys nifer amhendant o blant mewn meithrinfeydd a gynhelir[5].

I gloi, mae yna 117 o blant ychwanegol sydd â namau amlsynnwyr yng Nghymru (naill ai yn brif angen neu'n angen eilaidd)[6]. Daw hyn â'r cyfanswm o blant byddar yng Nghymru i 2,881 wedi'u cofnodi gan y Cyfrifiad Ysgol

[2] Data ar gael yn http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?skip=1&lang=cy
Mae data'r Cyfrifiad Ysgol yn seiliedig ar ddatganiadau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) gan ysgolion ar draws Cymru. Felly, ni chynhwysa'r data plant sy'n mynychu ysgol arbennig tu allan i Gymru neu sydd yn derbyn addysg yn y cartref. Cynhwysir plant sydd ar Weithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â Datganiad. Cynhwysa'r ffigur tri disgybl sy'n mynychu ysgol annibynnol ac sydd â Datganiad, ond ni ddarpara'r set ddata wybodaeth parthed a oes unrhyw blant byddar a all fod yn mynychu ysgol annibynnol heb Ddatganiad.

[3] Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru, 2013:Canlyniadau Terfynol, http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?lang=cy
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?lang=en#/statistics-and-research/schools-census/?tab=previous&lang=cy

[4] Er hynny, dylid nodi y darperir gwybodaeth am anghenion eilaidd gan ysgolion yn wirfoddol. Dylid nodi hefyd na chesglir gwybodaeth am anghenion tu hwnt i anghenion eilaidd.

[5]Nid yw'n bosib adnabod faint o'r rheini sydd yn cyfateb i ddisgyblion meithrin ond, yn seiliedig ar ffigurau a rhoddwyd yn gynharach, nid yw'n afresymol i dybio ei bod yn gymharol isel..

[6] Cyfateba'r ffigur hwn i'r nifer o blant mewn ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir.

## RHAN 2: Cyfathrebu ac iaith

Cynhwysa arolwg 2014 gyfres o gwestiynau am ddarpariaeth iaith arwyddion.

### Darpariaeth i gefnogi datblygiad plant byddar mewn Iaith Arwyddion Prydain

Gofynnwyd i wasanaethau pa ddarpariaeth oedd ar gael o fewn eu gwasanaeth i gefnogi datblygiad plant byddar mewn Iaith Arwyddion Prydain. Atebodd 13 o 15 gwasanaeth y cwestiwn hwn.

Tabl 1: Darpariaeth i gefnogi datblygiad Iaith Arwyddion Prydain

| Darpariaeth | Nifer o wasanaethau | Canran o'r gwasanaethau sy'n ei darparu |
|---|---|---|
| **Mynediad at fodelau rôl byddar** | 6 | 40% |
| **Gwersi Iaith Arwyddion Prydain dynodedig** | 2 | 13% |
| **Clybiau ar ôl ysgol** | 5 | 33% |
| **Gweithwyr cymorth taliadau uniongyrchol** | 1 | 7% |
| **Prosiectau cyfathrebu ysgol gartref** | 0 | 0% |
| **Dysgu un i un uniongyrchol** | 4 | 27% |
| **Arall** | 4 | 27% |
| (n=13) | | |

Ble dyfynnodd gwasanaethau 'Arall', gofynnwyd iddynt nodi'r manylion. Ymhlith yr atebion yr oedd:

- Cwricwlwm Iaith Arwyddion y Teulu
- Clybiau arwyddo ac amser cinio
- Ymweliadau cyn-ysgol sy'n cynnwys cyfraniad arwyddo
- Sesiynau 'Aros a Chwarae' cyn-ysgol
- Darpariaeth cyfeirio ar gyfer teuluoedd ac unigolion.

### Asesiadau a ddefnyddir i fesur datblygiad plant mewn Arwyddion Iaith Prydain

Tabl 2: Asesiadau a ddefnyddir gan wasanaethau i fesur datblygiad plant mewn Arwyddion Iaith Prydain

| Asesiad | Nifer o wasanaethau | Canran o'r gwasanaethau sy'n ei darparu |
|---|---|---|
| **Prawf Sgiliau Iaith Arwyddion Prydain Goddefol Herman et al** | 5 | 33% |
| **Prawf Sgiliau Iaith Arwyddion Prydain Mynegiadol Herman et al** | 2 | 13% |
| **Gwobr Lefel 1 mewn Iaith Arwyddion Prydain Signature BSL** | 1 | 7% |
| **Tystysgrif Lefel 2 mewn Iaith Arwyddion Prydain Signature BSL** | 0 | 0% |
| **Tystysgrif NVQ Lefel 3 mewn Iaith Arwyddion Prydain Signature BSL** | 0 | 0% |
| **Tystysgrif NVQ Lefel 6 mewn Iaith Arwyddion Prydain Signature BSL** | 0 | 0% |
| **Ni ddefnyddiwyd asesiadau Iaith Arwyddion Prydain gan y gwasanaeth (er enghraifft, oherwydd fe'u cyflawnwyd gan ysgolion arbennig neu mewn mannau eraill)** | 9 | 60% |
| **Nid yw'n hysbys** | 1 | 7% |
| **Arall** | 1 | 7% |
| (n=15) | | |

## RHAN 3: Athrawon Plant Byddar

Holodd ein harolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir gan y gwasanaeth lleol, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig, a’r rheini sy’n gweithio mewn darpariaeth adnoddau. Mynega’r ffigurau fel swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner “wythnos waith” safonol.  Ni holasom am Athrawon Plant Byddar mewn ysgolion arbennig, canolfannau mewnblaniadau yn y cochlear a lleoliadau eraill ac felly nid yw’r ffigurau isod yn darparu darlun cyflawn o boblogaeth gyfan Athrawon Plant Byddar yng Nghymru.

Yn seiliedig ar ymatebion gan 14 gwasanaeth, cyfanswm y swyddi Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yw o leiaf 70.2 (CALl).  O’r rheini, llenwir 95% gan Athrawon Plant Byddar cymwysedig. Yn ogystal, pan gyflawnir yr arolwg, bu 0.6 swydd CALl wag neu wedi’u gohirio.

O ychwanegu'r swyddi gwag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, ymddengys fod o leiaf 70.8 swydd Athrawon Plant Byddar CALl, gyda 1% ohonynt yn wag.

Tabl 3: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol

| | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol** | 67.0 | 95% |
| **Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd** | 2.2 | 3% |
| **Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 1.0 | 1% |
| **Cyfanswm** (n=14) | **70.2** | |

Tabl 4: Newidiadau mewn nifer Athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn

| | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | | **Newid ers y llynedd** | **Newid dros 4 blynedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth** | 72.0 | 91.75 | 66.5 | 67.0 | | + 0.8% | -7% |
| **Nifer yr athrawon sy’n gweithio fel Athrawon Plant Bydder mewn cyflogaeth** | 76.0 | 100.55 | 71.5 | 70.2 | | - 2% | - 8% |
| **Nifer swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag)** | 76.0 | 100.55 | 74.5 | 70.8 | | - 5% | - 7% |

Bu cyncydd bach yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.  Awgryma ffigurau tymor-hir gostyngiad cyffredinol.

### Proffil oedran Athrawon Plant Byddar

Cynhwysa arolwg CRIDE 2014 gwestiwn am broffil oedran Athrawon Plant Byddar.  Bu hyn yn sgil pryderon ledled Prydain bod, dros y blynyddoedd diwethaf, nifer yr Athrawon Plant Byddar newydd sy’n cael eu recriwtio yn sylweddol is na nifer yr Athrawon Plant Byddar sy’n ymddeol.  Os yw’n wir, gall hyn arwain at ‘wasgfa cynhwysedd’ ble na fydd digon o Athrawon Plant Byddar i gwrdd ag anghenion plant byddar yn y dyfodol.

Tabl 5: Ystodau oedran Athrawon Plant Byddar (mewn cyflogaeth neu hyfforddiant)

| | Nifer yr Athrawon (CALl) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| **49 neu iau** | 33.35 | 53% |
| **Rhwng 50 oed a 59 oed** | 25.2 | 40% |
| **Rhwng 60 oed a 64 oed** | 4.8 | 8% |
| **65 oed neu hŷn** | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **63.35** | |

Mae'r ffigurau yn cynnwys Athrawon Plant Byddar mewn gwasanaethau peripatetig (ymweld) a darpariaethau adnoddau. Nid oedd yn bosib i bob gwasanaeth darparu cyfansymiau a oedd yn gyfartal â chyfansymiau eu Hathrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth neu hyfforddiant; mae tua 5.85 Athro Plant Byddar CALl heb gyfrif o fewn y ffigurau hyn.

## Cymwysterau Arwyddion Iaith Prydain Athrawon Plant Byddar

Holodd arolwg CRIDE 2014 am gymwysterau Arwyddion Iaith Prydain Athrawon Plant Byddar:

Tabl 6: Cymwysterau lefel Iaith Arwyddion Prydain Athrawon Plant Byddar (mewn cyflogaeth neu hyfforddiant) yn cynnwys athrawon ymweld ac mewn darpariaethau adnoddau

| | Nifer yr Athrawon (CALl) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 0.6 | 1% |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 25.9 | 42% |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 30.3 | 49% |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 4.6 | 7% |
| **Cyfanswm** | **61.4** | |

Nid oedd yn bosib i bob gwasanaeth darparu cyfansymiau a oedd yn gyfartal â chyfansymiau eu Hathrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth neu hyfforddiant, mae tua 7.8 Athro Plant Byddar CALl heb gyfrif o fewn y ffigurau hyn. Archwiliwn y dadansoddiad rhwng Athrawon Plant Byddar mewn gwasanaethau peripatetig ac mewn darpariaethau adnoddau yn ddiweddarach yn yr adran hon.

## Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig

Gofynnodd ein harolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a weithiai yn y gwasanaeth peripatetig arbennig o Ionawr 2014. Hynny yw, faint o Athrawon Plant Byddar "ymweld" a weithiai ym mhob gwasanaeth. Yn arferol ymwêl Athrawon Plant Byddar Ymweld â phlant byddar mewn darpariaeth "anarbenigol" – h.y. plant byddar cyn-ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nad yw ar gyfer plant byddar yn benodol.

Tabl 7: Nifer yr Athrawon Plant Byddar Ymweld mewn cyflogaeth

| | Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl) | Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas |
|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol** | 38.85 | 14 |
| **Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd** | 1 | 1 |
| **Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** (n=14) | **40.85** | |

Yn nhermau Athrawon Plant Byddar Ymweld cymwysedig sydd â'r cymhwyster gorfodol, roedd y ffigurau o fewn pob gwasanaeth o 1.0 yn y lleiaf a 6.0 yn y fwyaf. Nifer cyfartalog yr Athrawon Plant Byddar Ymweld (sydd â'r cymhwyster gorfodol) ym mhob gwasanaeth yw 2.8 (CALl).

Cyfloga 7 o'r 14 gwasanaeth a atebodd 2 Athro Plant Byddar Ymweld neu lai, gyda dau o'r gwasanaethau hyn (14%) yn cyflogi 1 Athro Plant Byddar Ymweld neu lai. Oherwydd cymhlethdod byddardod ac anghenion amrywiol plant byddar, mae dal yn bryder bod rhai gwasanaethau yn ceisio cwrdd ag anghenion pob plentyn byddar gyda nifer cymharol fach o Athrawon Plant Byddar Ymweld.

Gofynnodd CRIDE 2014 hefyd am gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain Athrawon Plant Byddar Ymweld.

Tabl 8: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain Athrawon Plant Byddar Ymweld (mewn cyflogaeth neu hyfforddiant)

| | **Nifer yr Athrawon (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 0 | 0% | 0 (0%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 20.1 | 50% | 11 (73%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 17.8 | 44% | 10 (67%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 2.2 | 5% | 2 (13%) |
| **Cyfanswm** | **40.1** | | |

Mae cyfanswm y ffigurau am y cwestiwn hwn yn uwch na'r cyfanswm o Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth neu hyfforddiant; felly mae'n debyg nid oedd rhai gwasanaethau yn gallu darparu ffigurau CALl ac yn lle wedi darparu nifer o unigolion.

Gofynnwyd i wasanaethau a allent ddarparu cymorth Athro Plant Byddar peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y gofyn. O'r 12 gwasanaeth a atebodd, roedd wyth (67%) yn gallu, nid oedd pedwar (33%) yn gallu.

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar yn y gwasanaeth peripatetig yn ystod y 12 mis diwethaf.

Tabl 9: Anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar yn ystod y 12 mis diwethaf.

| | **Nifer y gwasanaethau oedd wedi ceisio recriwtio** | **Nifer y gwasanaethau a gafodd anawsterau wrth recriwtio** | **Canran o'r gwasanaethau oedd wedi ceisio recriwtio a gafodd anawsterau** |
|---|---|---|---|
| **Anawsterau i recriwtio i swydd barhaol** | 6 | 1 | 17% |
| **Anawsterau i sicrhau digon o athrawon llanw** | 9 | 4 | 44% |
| **Anawsterau i recriwtio i swydd dros dro / contract tymor penodol** | 7 | 2 | 29% |

## Athrawon Plant Byddar mewn Darpariaethau Adnoddau

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar, wedi'u rheoli'n ganolog gan yr awdurdod lleol ac yn uniongyrchol gan yr ysgol. Ymatebodd deg gwasanaeth y cwestiwn hwn. Ni chafwyd ateb i'r cwestiynau hyn gan un gwasanaeth sydd heb ddarpariaethau adnoddau yn ei ardal. Gofynnwyd i ymatebwyr am beidio â

chynnwys unrhyw amser a dreulir yn cyflawni dyletswyddau ysgol eraill (e.e. amser yn gweithio fel cydlynydd AAA'r ysgol). Unwaith eto, ni holasom am staff arbenigol mewn ysgolion arbennig, canolfannau mewnblaniadau yn y cochlear neu leoliadau eraill ac felly nid yw'r ffigurau isod yn darparu darlun cyflawn o boblogaeth gyfan staff arbenigol yng Nghymru.

Tabl 10: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau wedi'u rheoli gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol

| | **Nifer yr athrawon (CALl) mewn darpariaeth adnoddau wedi'i rheoli gan yr awdurdod lleol** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas** | | **Nifer yr athrawon (CALl) mewn darpariaeth adnoddau wedi'i rheoli gan yr ysgol** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol** | 6.6 | 4 | | 21.5 | 7 |
| **Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd** | 0 | 0 | | 1.2 | 2 |
| **Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** (n=10) | **6.6** | | | **22.7** | |

Mae cyfansymiau cyffredinol Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn darpariaethau adnoddau wedi aros yr un fath â'r llynedd, sef 29.3 CALl. Ond mae symudiad wedi bod tuag at nifer llai o athrawon yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau sydd wedi'u rheoli gan yr awdurdod lleol (0 13.1 i 6.6 CALl) i fwy ohonynt yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau sydd wedi'u rheoli gan yr ysgol (o 16.2 i 22.7 CALl).

Ni chofnodwyd unrhyw swyddi gwag mewn darpariaethau adnoddau.

Holodd CRIDE 2014 hefyd am gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau. Atebodd wyth gwasanaeth y cwestiwn hwn, sy'n awgrymu bod tri o'r gwasanaethau a adroddodd fod darpariaethau adnoddau yn eu hardaloedd ddim wedi ateb y cwestiwn hwn.

Tabl 11: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain Athrawon Plant Byddar (mewn cyflogaeth neu hyfforddiant) mewn darpariaethau adnoddau

| | **Nifer yr athrawon (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 0.6 | 3% | 1 (12%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 5.8 | 27% | 5 (63%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 12.5 | 59% | 7 (88%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 2.4 | 11% | 3 (38%) |
| **Cyfanswm (n=8)** | **21.3** | | |

Gofynnwyd hefyd i wasanaethau a allent ddarparu cymorth Athro Plant Byddar trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y gofyn, mewn darpariaethau adnoddau. Am ddarpariaethau adnoddau wedi'u rheoli gan yr awdurdod lleol, o'r pedwar gwasanaeth a atebodd, roedd tri (75%) yn gallu ac nid oedd un (25%) yn gallu. Am ddarpariaethau adnoddau wedi'u rheoli gan yr ysgol, o'r saith a atebodd, roedd dau (29%) yn gallu ac nid oedd pump (71%) yn gallu darparu cymorth Athro Plant Byddar trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn.

## RHAN 4: Staff arbenigol eraill

Awgryma ein harolwg fod o leiaf 83.5 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am Athrawon Plant Byddar, sy'n cefnogi plant byddar yng Nghymru, naill ai mewn swydd beripatetig neu yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau (cynnydd bach iawn ar y llynedd pan adroddwyd bod 83.4). Y swydd fwyaf cyffredinol yw cynorthwyydd addysgu, ac wedyn gweithiwr cefnogi cyfathrebu. Mae'n debyg bod lleihad sylweddol yn nifer y gweithwyr cefnogi cyfathrebu, o 10 CALl yn 2013 i 3 yn 2014. Ond hefyd mae yna gynnydd yn nifer y Cynorthwywyr Addysgu o 68.9 i 79.5. Atebodd 14 o'r 15 gwasanaeth y cwestiwn hwn.

Tabl 12: Nifer y staff cymorth arbenigol yn gyffredinol, yn ôl swydd

| | **Nifer y staff (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb** | 79.5 | 95.2% |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb** | 3.0 | 3.6% |
| **Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb** | 0 | 0.0% |
| **Awdiolegwyr addysgol / Technegwyr ayb** | 0.5 | 0.6% |
| **Therapyddion Lleferydd ac Iaith** | 0 | 0.0% |
| **Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt** | 0 | 0.0% |
| **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar** | 0.5 | 0.6% |
| **Cyfanswm (n=14)** | **83.5** | |

### Nifer y staff arbenigol arall

Gofynnodd yr arolwg am nifer y staff cymorth arbenigol arall, yn ôl a'u cyflogir mewn swydd beripatetig neu a'u cyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol i weithio mewn darpariaeth adnoddau

Tabl 13: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl swydd

| | Swydd beripatetig | | | | Darpariaethau adnoddau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | **Canran o'r Cyfanswm** | | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | **Canran o'r Cyfanswm** |
| **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb** | 23.5 | 13 | 92% | | 56.0 | 9 | 97% |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb** | 1.0 | 1 | 4% | | 2 | 2 | 3% |
| **Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb** | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| **Awdiolegwyr addysgol / Technegwyr ayb** | 0.5 | 1 | 2% | | 0 | 0 | 0% |
| **Therapyddion Lleferydd ac Iaith** | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| **Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt** | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar** | 0.5 | 1 | 2% | | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **25.5** | | | | **58.0** | | |

Tabl 14: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain staff arbenigol mewn gwasanaethau peripatetig

| | **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb (CALl)** | **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb (CALl)** | **Awdiolegwyr addysgol / Technegwyr ayb (CALl)** | **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar (CALl)** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 1.25 | 0 | 0.5 | 0 | 1.75 (9%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 5 | 0 | 0 | 0.5 | 5.5 (29%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 10 | 1 | 0 | 0 | 11 (57%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 (5%) |
| **Cyfanswm** | 17.25 | 1 | 0.5 | 0.5 | 19.25 |

Gofynnwyd i wasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y gofyn.

Tabl 15: Nifer y gwasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg

| | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|
| **Cynorthwywyr addysgu yn unig** | 2 (15%) |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu yn unig** | 0 (0%) |
| **Cynorthwywyr addysgu a Gweithwyr cymorth cyfathrebu** | 1 (8%) |
| **Heb gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg** | 10 (77%) |
| **Cyfanswm** | 13 |

Gofynasom hefyd a yw gwasanaethau'n rheoli cynorthwywyr addysgu neu staff cymorth arall sy'n gweithio mewn ysgolion er mwyn rhoi cymorth i blant penodol. Dwedodd 5 (33%) ie, dwedodd 1 (7%) eu bod yn rheoli rhai ohonynt, ond nid y cyfan, a dwedodd y mwyafrif, 9 (60%), nad oeddynt yn eu rheoli.

## Darpariaethau adnoddau

Gofynnwyd i wasanaethau am gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain a oedd gan y staff arbenigol.

Tabl 16: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain sydd gan staff arbenigol mewn darpariaethau adnoddau

| | **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb (CALl)** | **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb (CALl)** | **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar (CALl)** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 8.0 | 0 | 0 | 8.0 (14%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 23.8 | 0 | 0 | 23.8 (41%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 20.2 | 1 | 0 | 21.2 (37%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 4 | 1 | 0 | 5 (9%) |
| **Cyfanswm** | 56.0 | 2 | 0 | 58.0 |

Gofynnir i wasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn darpariaethau adnoddau, yn ôl y gofyn. Ni chafwyd ateb gan ddau wasanaeth sydd â darpariaeth adnoddau.

Tabl 17: Nifer y gwasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg

| | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|
| **Cynorthwywyr addysgu yn unig** | 3 (33%) |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu yn unig** | 0 (0%) |
| **Cynorthwywyr addysgu a Gweithwyr cymorth cyfathrebu** | 0 (0%) |
| **Heb gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg** | 6 (67%) |
| **Cyfanswm** | 9 |

Gofynnwyd i’r gwasanaethau a oedd y ddarpariaethau adnoddau yn darparu allgymorth i ysgolion eraill. O’r 8 gwasanaeth a atebodd y cwestiwn, atebodd 1 (12%) ie, ac atebodd 7 (88%) na. Mynegodd 22% o’r gwasanaethau y darparwyd allgymorth yn 2012/13, sy’n awgrymu lleihad.

Lle y darparwyd allgymorth, daeth hyn i amser staff 0.1 CALl ar draws pob gwasanaeth a ymatebodd, lawr o 0.6 yn 2012/13.

## RHAN 5: Effaith adroddiadau CRIDE

Dyma'r bedwerydd arolwg CRIDE, felly yr oeddem am wybod a yw’r gwasanaethau wedi defnyddio’r adroddiadau ac os felly, sut, a hefyd pa effaith a gaiff yr adroddiadau.

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddent wedi darllen adroddiadau arolygon CRIDE blaenorol. Roedd 93% wedi a 7% heb eu darllen.

Gofynasom i’r gwasanaethau a oedd wedi’u darllen a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am yr adroddiadau ac wedyn sut yr oeddent wedi’u defnyddio:

Tabl 18: datganiadau adroddiad CRIDE

| | Cytuno'n llwyr | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r adroddiadau yn eglur ac yn hawdd i'w deall | 1 (7%) | 12 (86%) | 1 (7%) | 0 (0%) |
| Darpara'r canlyniadau wybodaeth sydd yn ddefnyddiol o ran hwyluso trafodaethau am **ddarpariaeth leol** i blant byddar | 1 (8%) | 10 (77%) | 2 (15%) | 0 (0%) |
| Darpara'r canlyniadau wybodaeth sydd yn ddefnyddiol o ran deall **darpariaeth** i blant byddar **ar draws Cymru** | 2 (14%) | 11 (79%) | 1 (7%) | 0 (0%) |

Tabl 19: Sut y mae gwasanaethau wedi defnyddio adroddiadau CRIDE blaenorol:

| | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|
| I dynnu ar ganfyddiadau demograffig cymaradwy wrth baratoi ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol ar y ddarpariaeth leol | 5 (33%) |
| I lywio cynllunio strategol yn ymwneud â staffio a materion hyfforddi staff | 5 (33%) |
| At ddibenion ymchwil | 1 (7%) |
| Arall | 1 (7%) |

I gloi, gofynasom wasanaethau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach am werth arolwg ac adroddiadau CRIDE. Ymhlith yr atebion yr oedd:

- Y mae’r data ar nifer y plant a phobl ifanc yn ddefnyddiol
- Nid yw’n bosib defnyddio rhai data ar gyfer cynllunio strategol gan fod gwahaniaethau daearyddol o fewn ardaloedd, ac mae’n anodd cymharu ar sail ‘tebyg am debyg’
- Y mae’r adroddiadau yn ddefnyddiol ar lefel genedlaethol / Llywodraethol
- Y mae’r arolwg yn anghofio grŵp o ddisgyblion gwerthfawr sydd â byddardod dros dro fel clust lydiog.
- Gwerthfawrogwyd yr arolwg byrrach eleni.

## RHAN 6: Sylwadau i gloi

Yn yr adran hon, myfyriem ynghylch rhai o'r canfyddiadau o arolwg 2013/14 yn ogystal â'n harsylwadau ar yr arolwg ei hunan.

1. Er cynyddodd y nifer o Athrawon Plant Byddar cymwysedig tipyn bach y llynedd, mae'r gostyngiad o 7% dros y pedwar blynedd ddiwethaf yn achosi pryder. Mae hyn, ochr yn ochr â'r gweithlu sy'n heneiddio a disgwylir 48% ohono i ymddeol o fewn y 10 i 15 mlynedd nesaf, yn golygu ein bod ni yn wynebu argyfwng posibl. Nid ydym yn fodlon bod digon o Athrawon Plant Byddar yn cael eu hyfforddi er mwyn gallu bodloni gofynion y dyfodol.
2. Y llynedd, mynegasom bryder am y cymorth yr oedd ar gael i ddisgyblion byddar trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymddengys tipyn o welliant yn y cymorth sydd ar gael gan athrawon peripatetig, gyda 67% o wasanaethau yn dweud eu bod yn gallu darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae'n bosib y gall y ffigur hwn fod llawer is oherwydd ni chafwyd ymateb gan dri gwasanaeth i'r cwestiwn hwn.
3. Y mae cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg gan staff arbenigol eraill llawer mwy bylchog. Dwedodd deg o'r tri gwasanaeth ar ddeg a atebodd, na allent ddarparu cynorthwyydd addysgu peripatetig neu gymorth cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen ar blant byddar ledled Cymru derbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, os dyna yw eu dewis iaith.
4. Yr ydym hefyd yn pryderu am y nifer fach iawn yn unig o Athrawon Plant Byddar a gweithwyr cefnogi cyfathrebu sydd â chymhwyster Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch. Dim ond 4.6 Athro Plant Byddar CALl sydd â chymhwyster Iaith Arwyddion Prydain lefel 3 neu uwch ledled Cymru. Nid yw plant sydd ag angen amgylchedd Iaith Arwyddion Prydain cyfoethog arnynt yn derbyn y gefnogaeth sydd angen arnynt yng Nghymru.
5. Awgryma'r ffigurau nifer cynyddol o blant sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaethau. Mae'r ffigur wedi cynyddu o 374 yn 2013 i 535 yn 2014. Golyga hyn fod bron i 20% o'r cyfanswm o blant byddar ddim yn derbyn cefnogaeth. Er bydd rhai o'r rheini yn derbyn cefnogaeth tu allan i'r awdurdod lleol, mae'r ffigurau hyn wedi bod yn isel yn hanesyddol. Felly, mae hyn yn awgrymu bod bron i un plentyn byddar allan o bob pump ddim yn derbyn cefnogaeth.

## RHAN 7: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Pan gyhoeddwyd arolwg 2014, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), Prifysgol Dinas Llundain, Sefydliad Y Glust, Sefydliad Ewing, Ysgol Frank Barnes ar gyfer Plant Byddar, Cyngor Sir Gaint, Bwrdeistref Llundain Barnet, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS), Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSIP), Ysgol Mary Hare, Cyngor Dinas Sheffield a Choleg Prifysgol Llundain.

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Yn dilyn adborth gan wasanaethau, penderfynwyd defnyddio arolwg byrrach yn 2014, ac arolygon byrrach / llawn bob yn ail flwyddyn yn y dyfodol.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau ledled Cymru ym mis Mawrth 2014 gan NDCS ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn Ebrill 4 2014. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltodd aelodau CRIDE â gwasanaethau trwy e-bost a ffôn. Yn dilyn hyn, yn gam olaf, anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r gweddill nad oeddynt wedi ymateb erbyn Mai 23 2014.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

Tabl 20: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaeth

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf | 12 | 12 |
| Yr ail ddyddiad cau, ar ôl cyswllt | 2 | 14 |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 1 | 15 |

Yr oedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy lenwi'r arolwg mewn dogfen Word.

Ymgymerodd NDCS â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffwn ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr a ddefnyddir i hysbysu cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â professionals@ndcs.org.uk.

## Atodiad A: Gwybodaeth am wasanaethau unigol sy'n darparu cymorth arbennig ar gyfer plant byddar

Amlinellir y tabl yn Atodiad A rhai data unigol o wasanaethau a ddarparwyd yn wreiddiol yng ngwanwyn 2014. Eglurwyd bwriad CRIDE i gyhoeddi'r data hwn i wasanaethau pan y'u gofynnir i gwblhau'r arolwg. Bwriad CRIDE yw ehangu cyhoeddiad data gwasanaethau unigol yn y dyfodol.

Noder bod y ffigurau ar gyfer Athrawon Plant Byddar yn cynnwys swyddi gwag.

| Gwasanaeth | Nifer y plant byddar sy'n perthyn | Nifer y plant byddar a gefnogir | Nifer yr Athrawon Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn (call) yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol | Nifer yr Athrawon Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn (call) mewn darpariaethau adnoddau wedi'u rheoli gan yr ALl | Nifer yr Athrawon Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn (call) mewn darpariaethau adnoddau wedi'u rheoli'n uniongyrchol gan yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn a Gwynedd | 182 | 115 | 3 | n/a | n/a |
| Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen | 767 | 767 | 7 | 0 | 6 |
| Pen-y-bont | 164 | 110 | 3 | - | - |
| Caerdydd | 284 | 222 | 5.25 | 0 | 5.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 96 | 96 | 2 | 0 | 2.5 |
| Ceredigion | 55 | 55 | 3 | 1 | 0 |
| Conwy | 61 | 59 | 1.3 | n/a | n/a |
| Sir Y Fflint, Sir Dinbych a Wrecsam | 394 | 251 | 3 | 2 | 3 |
| Merthyr Tydfil | 65 | 64 | 1.5 | 0 | 0.5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 115 | 115 | 2 | 0 | 3 |
| Sir Benfro | 108 | 40 | - | n/a | n/a |
| Powys | 143 | 143 | 2.8 | n/a | n/a |
| Rhondda Cynon Taf | 237 | 144 | 4.6 | 1.6 | 0 |
| Abertawe | 95 | 84 | 2 | 0 | 2 |
| Bro Morgannwg | 114 | 80 | 1 | 2 | 0 |

Nodiadau:

- Nodir '-' na dderbyniwyd ymateb i'r cwestiwn perthnasol.
- Nodir 'n/a' nid oes darpariaethau adnoddau gan y gwasanaeth.